



## Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: 12 Hydref 2015

Amser: 10y.b. tan hanner dydd

Lleoliad: Pencadlys yr Heddlu, ystafell  
SCC004

### Eitem 1 ar yr Agenda: Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

#### Yn bresennol:-

NH (Cadeirydd)	Ymgynghorydd Annibynnol
PS	Ymgynghorydd Annibynnol
JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
NM	Ymgynghorydd Annibynnol
NC	Ymgynghorydd Annibynnol
PR	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
PL	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
TB	Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
CC	Uwch-arolygydd Dros Dro Datblygu Bro
AL	Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg
MBR	Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg
HH	Swyddog Cymorth , SCHTh

#### Ymddiheuriadau:-

CL	Dirprwy Brif Gwnstabl
CS	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
BS	Ymgynghorydd Annibynnol
HL	Ymgynghorydd Annibynnol
SB	Ymgynghorydd Annibynnol
MB	Ymgynghorydd Annibynnol

### Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2015 yn gofnod gwir a chywir.

Cam Gweithredu	Manylion	Perchennog	Statws
<b>Eitem 3</b>	AL i roi manylion cyswllt AJ a hithau i JJ.	AL	Anfonwyd manylion cyswllt at JJ. <b>Rhyddhawyd yr eitem.</b>
<b>Eitem 4</b>	<p><b>Cyflwyniad ar y Prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl</b> CG i drafod sut y byddai'r tîm brysbennu iechyd meddwl yn cyfathrebu ag unigolyn byddar yn y gweithdy iechyd meddwl nesaf.</p> <p>MBr i ddsbarthu'r cyflwyniad brysbennu iechyd meddwl i'r grŵp.</p> <p>BS i roi manylion cyswllt ei gweithiwr iechyd i CG.</p> <p>Rhoi ystyriaeth i hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd yn ffurfio rhan o hyfforddiant cychwynnol yr heddlu.</p>	<p>CG</p> <p>MBR</p> <p>BS</p> <p>AL</p>	<p>Roedd CG wedi trafod sut y byddai'r tîm brysbennu iechyd meddwl yn cyfathrebu â pherson byddar. Y dewisiadau sydd ar gael yw caffael cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain, neu ddefnyddio ffrind i'w cynorthwyo â chyfathrebu. <b>Rhyddhawyd yr eitem.</b></p> <p>Dosbarthwyd y cyflwyniad brysbennu iechyd meddwl i'r grŵp. <b>Rhyddhawyd yr eitem.</b></p> <p>Mae BS wedi rhoi manylion cyswllt ei Gweithiwr Iechyd i CG. <b>Rhyddhawyd yr eitem.</b></p> <p>Mae AL wedi trafod â'r adran hyfforddi mewn perthynas â'r hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd parhaus. Mae'r hyfforddiant IAP eisoes yn digwydd yn Nyfed-Powys. Byddwn ni hefyd yn ystyried hyfforddiant fel un o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol wrth symud ymlaen i gynllun 2016-2020.</p> <p><b>Eitem Gyfredol</b></p>
<b>Eitem 6</b>	<p><b>Gwefan newydd SCHTh</b> Unrhyw un sydd eisiau cael ei gynnwys ar wefan SCHTh i hysbysu MBr.</p>	MBR	<b>Eitem gyfredol</b>
<b>Eitem 7</b>	<p><b>Y Panel Craffu ar Stopio a Chwilio</b> AL i ymchwilio i ffyrdd newydd o graffu ar ddigwyddiadau Stopio a Chwilio.</p>	AL	Trafodaeth bellach yn eitem agenda 6 mewn perthynas â'r panel craffu ar stopio a chwilio newydd. <b>Rhyddhawyd yr eitem.</b>



Cododd NC bryderon am y toriadau i gyllideb yr heddlu a bod mwy o bwysau'n cael ei osod ar yr heddlu oherwydd bod llai o arian. Pa gymorth bydd SCHTh yn cynnig? Cafwyd trafodaeth a nododd TB y byddai'r CHTh a'r PG yn rhoi blaenoriaeth i swyddogion rheng flaen a SCHTh. Nodwyd mai Heddlu Dyfed-Powys oedd yr unig heddlu yng Nghymru a Lloegr i gynyddu nifer y swyddogion yn y 2 flynedd diwethaf, heblaw Heddlu Dinas Llundain.

Pwysleisiodd TB bod angen i wasanaethau gydweithio er mwyn cyflwyno gwasanaethau yng ngoleuni toriadau i'r gyllideb.

Cafwyd trafodaeth ynghylch Gwasanaethau Iechyd Meddwl a nododd NM ei fod wedi bod yn ymgyrchu ar gyfer cymorth Iechyd Meddwl a Byddardod yn yr ardal ers blyneddau lawer. Roedd NM yn poeni sut fyddai'r Tîm Brysbennu'n cyfathrebu â pherson byddar pan maen nhw'n dioddef argyfwng. Hefyd, codwyd pryderon nad oes gan fyrddau Iechyd Adnoddau i gyfathrebu â pherson byddar yn ystod argyfwng Iechyd Meddwl. Mae cynlluniau mewn grym gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle maen nhw'n defnyddio pobl fyddar yn y gymuned sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf Iechyd Meddwl. Mae NM yn ymgyrchu i gael y cynllun hwn yn yr ardal hon a gwahoddodd TB ef i drafod y mater gydag ef y tu allan i'r cyfarfod.

Dyweddodd TB bod buddsoddiad yn cael ei wneud o ran diweddarau gorsafoedd heddlu ledled Dyfed-Powys a gwahoddodd y grŵp hwn i gymryd rhan yn y cam cynllunio/dylunio er mwyn sicrhau eu bod nhw'n hygyr i holl aelodau'n cymunedau.

**Cam Gweithredu:- SCHTh i ymgysylltu â'r GYA yn ystod cam cynllunio diweddarau gorsafoedd heddlu ledled yr ardal heddlu.**

#### **Eitem Agenda 4: Cylch Gorchwyl Diwygiedig y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol**

Esboniodd NH i'r grŵp bod Cylch Gorchwyl y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi'i ddiweddarau. Gofynnodd NH i'r grŵp pa un ai a oedd ganddynt unrhyw adborth mewn perthynas â'r cylch gorchwyl GYH diwygiedig. Cododd NM ymholiad mewn perthynas â chael gwared ar ddeunydd GYA ar ôl pob cyfarfod a gofynnodd am eglurhad o ran y mater hwn gan ei bod hi'n ddefnyddiol cadw deunydd GYA ar gyfer cyfeirio atynt yn y dyfodol gan eu bod nhw'n ddeunydd ymgynghorol. Esboniodd AL bod deunydd yn cael ei roi i'r grŵp yn gyfrinachol er mwyn rhoi cyngor annibynnol, a gan hynny, dylid ei ddinistrio ar ôl pob cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cyfarfodydd pellach y mae aelodau'r GYA wedi'u gwahodd iddynt. Cadarnhaodd AL y byddai aelodau eraill o'r GYA yn cael cyfle i wneud hyn.

Hysbysodd AL y grŵp bod gwahoddiad wedi'i estyn i'r grŵp i aelodau eistedd ar Gyfarfod Ymarferwyr Iechyd Meddwl. Ar hyn o bryd, mae BS yn eistedd ar gyfarfod y grŵp Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys ond os nad yw BS yn medru bod yn bresennol, rhoddir gwahoddiad i aelod arall o'r GYA.

**Cam Gweithredu:- Dosbarthu'r Cylch Gorchwyl i aelodau ar ôl eu gorffen**

**Cam gweithredu:- Gosod blwch yng nghefn yr ystafell er mwyn cael gwared ar bapurau drafft GYA ar ôl pob cyfarfod.**

#### **Eitem Agenda 5: Recriwtio aelodau GYA newydd**

Hysbysodd AL y grŵp bod aelod newydd wedi'i wahodd i ymuno â'r GYA yn dilyn ymgyrch recriwtio diweddar. Nodwyd y byddai'r ymgyrch recriwtio'n parhau, ac anogwyd aelodau o'r GYA i nodi aelodau posibl.

#### **Eitem Agenda 6: Panel Craffu ar Stopio a Recriwtio Diwygiedig**

Dywedodd AL ei bod hi wedi gweithio gyda NH a'r Prif Arolygydd Diggins i ddatblygu fformat newydd ar gyfer craffu ar gofnodion stopio a chwilio a fyddai'n profi'n fwy atebol ac yn haws adrodd arnynt.

Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y byddai'r panel yn gweithio ac anogwyd aelodau o'r GYA i fynegi diddordeb mewn ymuno os oeddent eisiau gwneud hynny.

Hysbysodd CC y grŵp bod AHEM wedi ymweld â'r heddlu'n ddiweddar i edrych ar y mater penodol hwn a nodwyd mor bwysig oedd y GYA o ran cynnal didwylledd a thryloywder mewn perthynas â chraffu ar stopio a chwilio.

**Cam Gweithredu:- Anfon adborth mewn perthynas â dogfennau craffu ar stopio a chwilio at AL**

**Cam Gweithredu:- Aelodau'r GYA i ddweud wrth AL os ydynt eisiau dod yn aelod o'r panel craffu ar stopio a chwilio.**

#### **Eitem agenda 7: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cytunodd y grŵp y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2016.

#### **Eitem agenda 8: Unrhyw Fusnes Arall**

##### **8a Polisi Troseddau Casineb a Chanllawiau Gweithredol**

Trafodwyd y Polisi Troseddau Casineb a Chanllawiau Gweithredol yn fras, a gwahoddwyd aelodau'r GYA i gysylltu ag AL os oes ganddynt unrhyw sylwadau mewn perthynas â nhw.

**Cam Gweithredu:- Yr aelodau i anfon unrhyw adborth mewn perthynas â'r Polisi Troseddau Casineb a Chanllawiau Gweithredol at AL.**

##### **8b Bywgraffiad Digwyddiadau Argyfyngus**

Nododd NH mai rhan o gylch gorchwyl y GYA yw y gellir gofyn i aelodau roi cyngor annibynnol mewn perthynas â digwyddiadau argyfyngus. Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno bywgraffiad digwyddiadau argyfyngus os oedd ganddynt ddiddordeb mewn rhoi cyngor o'r fath.

**Cam Gweithredu:- Dylid e-bostio bywgraffiadau digwyddiadau argyfyngus at AL.**

#### **8c Gwasanaeth negeseuon testun difrys.**

Rhoddodd PS adborth ar ei gyfathrebiadau diweddar â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu.

**Cam Gweithredu:- Adrodd yn ôl i'r ganolfan gyfathrebu ar yr adborth a dderbyniwyd mewn perthynas â'r gwasanaeth negeseuon testun difrys 101.**

**Cam Gweithredu:- Gwahodd yr Arolygydd Steve Lee o Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu i gyfarfod nesaf y GYA i drafod y gwasanaeth negeseuon testun difrys.**

#### **8ch Mater Gwasanaeth**

Rhoddodd PS enghraifft o wasanaeth diweddar a dderbyniwyd gan berson byddar yn y gymuned pan oedd wedi cloi ei hun allan o'i dŷ ac roedd anawsterau cyfathrebu yn dilyn hynny. Gwahoddodd CC PS i drafod yn bersonol ag ef ar ddiwedd y cyfarfod.

**Cam Gweithredu:- Adrodd yn ôl i'r maes gweithredol ar adborth a dderbyniwyd gan PS mewn perthynas â gwasanaeth a dderbyniodd aelod byddar o'r gymuned.**

#### **8d Aelodaeth o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol**

Hysbysodd NH y grŵp y bydd aelodaeth o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf gan fod rhai aelodau bellach wedi bod yn aelodau ers dros 3 blynedd.

Cam Gweithredu	Manylion	Perchennog	Statws
<b>Eitem 3</b>	SCCHTh i ymgysylltu â'r GYA yn ystod cam cynllunio diweddaru gorsafoedd heddlu ledled yr ardal heddlu.	SCCH	<b>Cwblhawyd</b> – Heddwyn Thomas yn mynychu'r cyfarfod ar 8 Ionawr i drafod ail ddylunio.
<b>Eitem 4</b>	Dosbarthu'r Cylch Gorchwyl i aelodau ar ôl eu gorffen	AL	<b>Cwblhawyd</b> – Dosbarthwyd gyda'r agenda.
<b>Eitem 4</b>	Gosod blwch yng nghefn yr ystafell er mwyn cael gwared ar bapurau drafft GYA ar ôl pob cyfarfod.	MB	<b>Cwblhawyd</b>
<b>Eitem 6</b>	Anfon adborth mewn perthynas â dogfennau craffu ar stopio a chwilio at AL	Pob aelod	<b>Cwblhawyd</b> – Dogfennau wedi'u gorffen yn barod ar gyfer y cyfarfod cyntaf
<b>Eitem 6</b>	Aelodau'r GYA i ddweud wrth AL os ydynt eisiau dod yn aelod o'r panel craffu ar stopio a chwilio.	Pob aelod	<b>Cwblhawyd</b> – Cyfarfod cyntaf y panel ar 8 Ionawr
<b>Eitem 8(b)</b>	Aelodau i anfon unrhyw adborth mewn perthynas â'r Polisi Troseddau Casineb a Chanllawiau Gweithredol at AL.	Pob aelod	<b>Cwblhawyd</b> – Ni dderbyniwyd adborth.
<b>Eitem 8(c)</b>	Dylid e-bostio bywgraffiadau digwyddiadau argyfyngus at AL.	Pob aelod	<b>Cyfredol</b> – Does dim bywgraffiadau digwyddiadau argyfyngus wedi'u derbyn hyd yn hyn.
<b>Eitem 8(c)</b>	Adrodd yn ôl i'r ganolfan gyfathrebu ar yr adborth a dderbyniwyd mewn perthynas â'r gwasanaeth negeseuon testun difrys 101.	MB	<b>Cwblhawyd</b> – Anfonwyd adborth at Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu ac anfonwyd ymateb at PS.
<b>Eitem 8(ch)</b>	Gwahodd yr Arolygydd Steve Lee o Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu i gyfarfod nesaf y GYA i drafod y gwasanaeth negeseuon testun difrys.	MB	<b>Cwblhawyd</b> – Yr Arolygydd Steve Lee yn bresennol adeg cinio wedi'r cyfarfod ar 8 Ionawr i drafod y gwasanaeth.
<b>Eitem 8(ch)</b>	Adrodd yn ôl i'r maes gweithredol ar adborth a dderbyniwyd gan PS mewn perthynas â gwasanaeth a dderbyniodd aelod byddar o'r gymuned.	CC	<b>Cwblhawyd</b> – CC wedi adrodd yn ôl i'r maes gweithredol perthnasol.